



Nod y Rhaglen Datblygu Busnes yw galluogi busnesau mêl Cymreig i greu swyddi a thwf economaidd cynaliadwy trwy gefnogi'r sector i dyfu trwy ddarparu cefnogaeth benodol - mae'r rhaglen Clwstwr yn enghraifft o'r gefnogaeth hon.

Y Clwstwr Mêl Cymreig

Bydd Clwstwr Mêl Cymru yn creu llwyfan ar gyfer gweithgaredd ar y cyd er mwyn adnabod a datrys problemau cyffredin. Bydd yn dod ag ystod o gynhyrchwyr mêl o ansawdd uchel, gydag uchelgais i dyfu, yn unol â phartneriaid masnachol, llywodraeth ac academaidd ynghyd.

Goresgyn rhwystrau i dwf yn eich busnes

Bydd Clwstwr Mêl Cymru yn eich cynorthwyo i oresgyn rhwystrau ar gyfer twf. Bydd yn eich cynorthwyo i ddatblygu eich dealltwriaeth a rhoi cyfleoedd i chi weithio gyda busnesau eraill i oresgyn rhwystrau ar gyfer twf a gwneud y mwyaf o gyfleoedd masnachol.

Mae'r rhaglen Clwstwr Mêl wedi'i anelu at fusnesau bychain sy'n tyfu, sydd eisiau ehangu eu

gallu, a bydd yn cynnwys:

- Clwstwr o gwmnïau cynhyrchu mêl gyda phrosiectau'n ymwneud â chyfleoedd datblygu allweddol
- Rheolwr clwstwr a fydd yn gallu eich cynorthwyo i ddatblygu atebion i oresgyn rhwystrau i dyfiant
- Defnyddio dull gweithredu i ddarparu fframwaith ar gyfer arloesedd sy'n cynnwys sefydliadau academaidd, cwmnïau, llywodraeth ac ystod o rhanddeiliaid i feithrin gwelliannau mewn gwybodaeth a dealltwriaeth o gyfleoedd busnes, gan atgyfnerthu arloesedd ac arwain at dyfiant cynaliadwy
- Darparu mentora arbenigol wedi'i deilwra i bob cwmni

Bydd gweithgareddau Clwstwr yn cynnwys:

- Cyfnewid gwybodaeth rhwng cymheiriaid
- Digwyddiadau a gweithdai
- Cydweithrediad mewn gweithgareddau masnachol
- Rhannu costau/adnoddau
- Ychwanegu gwerth
- Hyrwyddo mêl o Gymru
- Busnesau sector cyhoeddus yn

arwain yr agenda ymchwil

- Deall a chael mynediad i farchnadoedd newydd
- Mynediad at ymchwil fyd eang
- Treialu darpariaeth gwasanaeth newydd yn seiliedig ar yr anghenion busnes a nodwyd.

Arloesi Bwyd Cymru

Mae Arloesi Bwyd Cymru'n bartner allweddol. Mae eu tîm o arbenigwyr cydnabyddedig yn y diwydiant bwyd ar gael i gynorthwyo cleientiaid i weld eu ffordd trwy amrywiaeth gymhleth o feysydd bwyd, boed yn faeth, iechyd amgylcheddol, datblygu cynhyrchion newydd, cynllunio gweithfannau, sicrhau ansawdd, hylendid, diogelwch bwyd ac effeithlonrwydd

Cyswllt i ddarganfod mwy:

Arweinydd Clwstwr Mêl

Haf Wyn Hughes

haf.hughes@
menterabusnes.co.uk

01745 770278

07984 522619